



Datganiad Cyflogaeth Foesegol 2024/25

Mae Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) yn cael ei letya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol (Felindre). Mae PCGC yn rhwym i ymrwymiadau Deddf Caethwasiaeth Fodern (2015) a'r datganiad Tryloywder mewn cadwyni cyflenwi gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Mae PCGC yr un mor ymrwymedig i sicrhau bod gweithgareddau a gynhelir ar ran GIG Cymru yn cael eu cynnal mewn modd moesegol. Bydd PCGC yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'n cadwyni cyflenwi i hyrwyddo gwaith teg a gweddus, yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Yn benodol, bydd PCGC yn sicrhau bod ein sefydliad yn cydymffurfio ag ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ac yn manteisio ar ein gweithgarwch caffael i annog ein cyflenwyr i wneud yr un peth. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys ymrwymiadau sy'n ymwneud â:

- Chaethwasiaeth fodern a sathru ar hawliau dynol;
- Cosbrestru
- Hunangyflogaeth ffug
- Defnydd annheg o gynlluniau ymbarél a hunangyflogaeth ffug
- Ystyried talu Cyflog Byw y Sefydliad Cyflog Byw

Hyd yma, mae PCGC wedi:

- Gwreiddio'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn gweithdrefnau gweithredu safonol;
- Wedi darparu hyfforddiant i'r rhai sy'n ymwneud â phrynu/caffael ar gaethwasiaeth fodern, arferion cyflogaeth moesegol.
- Alinio'r Cod Ymarfer yn ein Cod Ymarfer Caffael Cynaliadwy ehangach.
- Dod yn llofnodwr i gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi a chyhoeddi Datganiad Cyflogaeth Foesegol PCGC.
- Anogwyd cyflenwyr i ymrwymo i ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a hefyd i gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TISC) i roi cyhoeddusurwydd i'w hymrwymiad a'u datganiadau Caethwasiaeth Fodern/Cyflogaeth Foesegol.
- Ymgysylltu â chydweithwyr ehangach yn GIG yr Alban, GIG Gogledd Iwerddon, a GIG Lloegr i barhau i ddatblygu a rhannu arferion gorau.

Bydd PCGC yn:

- Ymgysylltu'n briodol mewn modd sydd wedi'i dargedu â chyflenwyr a darpar gynigwyr, i sicrhau nad yw'r ffordd yr ydym yn gweithio yn cyfrannu at ddefnyddio arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol.
- Cynnal a rhannu gwybodaeth am faterion a themâu cyflogaeth moesegol, gan sicrhau cefnogaeth barhaus i waith teg a gweddus.
- Parhau i ysgogi ein prosesau tendro i annog ein cyflenwyr i ymrwymo i ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a hefyd i gofrestr TISC, i roi



cyhoedduswydd i'w hymrwymadau a'u datganiadau Caethwasiaeth Fodern/Cyflogaeth Foesegol.

- Aesu ein gwariant a'n meysydd targed o risg uwch er mwyn parhau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion posibl yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol a/neu arferion cyflogaeth anfoesegol.

Llofnod:

Mr Gareth Hardacre Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol a Chyflogaeth Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol i Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru